

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd Fawrth 2105

Presennol -Einion Edwards, Cadeirydd, Hefin Edwards, Alun Jones, Menai Hughes, Prys Ellis, Guto G Jones, Ieuan Jones, Helen Ellis, Peter Lewis Cyng. Sir, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Iwan Price, John D Jones

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 20/1/15

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng/Ms Heidi Dobbs.

Eglurodd y Cyng. Peter Lewis ei fod yn gwneud ymholiadau ynglyn a'r llinell gymorth

[1.3] Cae Chwarae Ty'n y Felin/ Gosod Goliau

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Goleuadau/Maes y Ffynnon

Eglurodd y clerch bod trefniadau mewn llaw i osod dau olau ychwanegol.

[1.5] Gwasanaeth Iechyd

Cyfeiriodd y clerch at ateb gan y Bwrdd Iechyd yn cadarnhau, y bydd gwybodaeth pellach ymhen 30 diwrnod.

[1.6] Cattle Grid Ffordd Brenig ar Gyffordd ger y Sportmans Arms

Nodwyd ateb oddiwrth Cyngor Sir Ddinbych nad oedd bwriad i ail osod neu cael gwared ar cattle grid.

[1.7] Graenio Ffyrdd

Nodwyd ateb Trebor Jones ynglyn a chwyn a wnaed nad oedd allt Ty'n Rhyd yn cael ei graenio.

[1.8] Gwasanaeth Sgip

Cytunodd y Cyng Peter Lewis i wneud ymholiadau ynglyn a'r gwasanaeth sgip a gafwyd yn yr ardal yn ddiweddar.

[1.9] Goleuadau Nadolig

Cyfeiriodd y clerch at y costau canlynol i osod goleuadau Nadfolig yn y pentref

[a] Golau lliwgar £379.00 yr un. [b] Goleuadau di liw £280.00 yr un. Penderfynwyd bod y gost yn ormod, y clerc I wneud ymholiadau ynglyn a posiblwydd o wneud trefniadau lleol.

Y brif agenda

[2] Rheolaeth Mewnol

Penderfynwyd parhau ymlaen gyda'r trefniadau presennol fel a ganlyn;

[a] Pob taliad siec a derbyniadau ariannol i gael ei gofnodi

[b] Mantolen cyfrifon blynyddol I gael ei dosbarthu i bob aelod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

[c] Pob siec i gael ei llofnodi gan ddau aelod a'r clerc.

[2.1] Asesiad Risg

Nodwyd bod cynhaliaeth blynyddol wedi ei wneud l'r ddau diffoddwr tan a hefyd i foliar y gwres canolog

Penderfynwyd I wneud arolwg i ddiogelwch y trydan yn yr ystafell blwyf.

Cadeirydd _____